William Thompson

Albanwr oedd William Thompson a ddaeth yn bencipar Stad y Penrhyn tua 1871. (Dilynodd William Savage White, a fu farw tua 1873). Roedd ei wraig Janet hefyd yn enedigol o'r Alban. Roeddent yn byw yng Nghapel Ogwen.

Mae dau fedd yn y fynwent er cof am y teulu Thompson.

Bedd William Thompson

Bu farw William Thompson yn 1903, ac mae ei fedd wrth y ffens bellaf ym mynwent Llandygai - mae Llyfr Log Ysgol Landegai yn cofnodi ei farwolaeth, ac hefyd ei fab Adam rhai misoedd yn ddiweddarach.

Bu farw ei fab ieuengaf, Robert George Thompson, yn y Rhyfel Mawr 1914.

Bedd Janet Thompson

Bu Janet farw rhai blynyddoedd o flaen ei gŵr, ac mae hi a rhai o'r plant wedi eu claddu o dan y coed ywen, nepell o fedd y pengarddwr Walter Speed.

Dyma 2 ddyfyniad o Lyfr Log Ysgol Llandygai 1903


Mon. Feb. 16. Funeral of Mr Wm Thompson, Head
Gamekeeper to Lord Penrhyn for
31 years.

Mae'n dangos bu'n gipar i'r Arglwydd Penrhyn am 31 o flynyddoedd Felly daeth i Landygai ym 1872



Dyma gofnod o farwolaeth Adam Thomson sydd hefyd wedi ei gladdu yn yr un bedd. Isod gwelir deyrnged iddo gan Edwin Jackson, y prifathro.

"An "old boy" of this school. One of the most amicable and gentlest of characters I ever knew and one who retained his purity of character to the end of his life.
On leaving school, he became a clerk in the Estate Office of Gwydir, Llanrwst. He later enlisted in the 2nd Life Guards, where by steady conduct he became Corporal of Horse. Attacked by lung disease, he left the army, remained more or less at home till his death at Bettws y Coed on Sunday night Aug 30.
He is one of the "old boys" of whom I shall always retain most happy recollections".

Robert George Thompson

Yn yr un bedd claddwyd y mab ieuengaf, sef, Robert George Thomson.